

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed  
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed Ebrill 2017

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Jim Boughton, Gwawr Jones, Terry Bullock, Marion Bettenev, Siân Godbert, Karen Pugh, Meirion Owen, Nick Corney, Elisabeth Roberts, Cyngor BS Conwy, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau, Janet Charlton, Meirion Owen, Gareth Parry.

Datgan diddordeb; Dim datganiad

Cofnodion, Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg Fawrth 2017

(1)Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol

[1.1] Byrddau Picnic/Tan Dinas

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.2] Creu Mynedfa Newydd I'r Neuadd Goffa

Penderfynwyd bwrw mlaen gyda'r cynnig, yn amodol a chaniatâd cynllunio.

[1.3] Creu Swigod/Cae Llan

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.4] Cais am gyfraniad gan Gyfeillion Ysgol Betws-y-Coed

Y clerch i geisio gwybodaeth pellach ynglŷn â materion insiwrans a hysbysiadau, ynghyd a gweithgareddau eraill sydd angen ei ariannu.

[1.5] Ciosg BT

Dywedodd y clerch ei fod yn disgwyl ateb oddiwrth BT

[1.6] Clwb Peldroed Betws-y-Coed/Eisteddfod Llanrwst

Nodwyd llythyrau o ddiolch am gyfraniad y Cyngor

Y brif Agenda

[1.7] Ceisiadau Cynllunio

[a] Cais l ymestyn caniatâd cynllunio 14/5/2012 am bum mlynedd, 2 Bythynnod Coedfa, Betws-y-Coed

[b] Caniatâd cadwraeth i ddymchwel eiddo adwerthu tri llawr, Ultimate Outdoors.

[c] Dymchwel eiddo adwerthu presennol ac adeiladu eiddo adwerthu newydd. Ultimate Outdoors.

[d] Diwygio amod rhif 2 ynghlwm i ganiatâd cynllunio NP4/11/58D ac ymestyn y cyfnod i 31/3/2020, Ffermdy'r Royal Oak

[e] Gosod blaen siop newydd Uned 1 Ffordd yr Orsaf.

[f] Creu mynedfa newydd, Neuadd Goffa, Pentre' Felin

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r chwe cais uchod.

[1.8] Materion Ariannol

(a) Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau (a ddsbarthwyd) a wnaed yn ystod mis Mawrth 2017.

(b) Y Rhaeadr Ewynnol -Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Mawrth 2017.

#### [1.9] Cyflog Gweithwyr Rhaeadr Ewynnol

Yn gytûn a chanllawiau cenedlaethol, penderfynwyd ychwanegu'r cyflog o £7.20 yr awr i £7.50 yr awr.

#### [2] Llwybr Cyhoeddus Pont y Mwynwyr

Y clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglŷn ar ysbwriel sydd wedi ei adael ar y llwybr.

#### [2.1] Peiriant AP Pont-y-Pair

Penderfynwyd cadw llygad ar y sefyllfa traffig ar y bont yn dilyn gosod peiriant arian parod yn y lleoliad.

#### [2.2] Arwyddion 20 m.y.a. Ffordd yr A5 Pentre Du

Mynegwyd pryder nad oedd yr arwyddion newydd yn gweithio'n foddhaol. Cytunodd y Cyng E Roberts I gysylltu gydag Asiant yr Adran Briffyrdd. Y clerc hefyd i gysylltu gyda'r heddlu yn mynegi pryder fod moduron yn anwybyddu'r arwyddion ac nad oeddent yn cadw o fewn y gwaharddiad gyrru newydd.

#### [2.3] Coed Cae Llan

Gan nodi bod cangen fawr wedi disgyn ar y llwybr cerdded ger ffordd yr A5, y clerc i gysylltu gyda swyddog coed y Cyngor Sir I geisio archwiliad i'r holl goed ar y cae.

#### [2.4] Llinellau Gwyn Priffordd yr A5

Nodwyd bod y llinellau gwyn wedi dirywio o Bont Waterloo ymlaen. Y clerc i godi'r mater gyda'r Cyngor Sir.

#### [2.5] Tai Fforddiadwy

Dywedodd y Cyng Elisabeth Roberts ei bod yn trefnu cyfarfod gyda Grŵp Cynefin ar Cyngor Cymuned I geisio penderfynu ffordd ymlaen.

#### [2.6] Ymddeoliad

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ymddeoliad y Cyng Jim Boughton, Karen Pugh, Meirion Owen, a Gareth Parry o'r Cyngor Cymuned, a diolchodd iddynt am eu ymroddiad ynghyd au gwasanaeth ir gymuned. O ganlyniad bydd sedd wag ar y Cyngor a fydd yn cael ei hysbysu yn dilyn yr etholiadau lleol.

#### [2.7] Nodwyd y wybodaeth ganlynol:

[a] Cyngor BS Conwy Deddf Gwarchod Amgylchedd 1990

[b] Cyngor BS Conwy Cynllun Corfforaethol Drafft

Gareth Wynne, Cadeirydd